**ROCP 12, Cyngor Celfyddydau Cymru**

Senedd Cymru | Welsh Parliament

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith** | **Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

Adolygiad o flaenoriaethau’r Pwyllgor ar gyfer y Chweched Senedd | Review of the Committee’s priorities for the Sixth Senedd

Ymateb gan Cyngor Celfyddydau Cymru | Evidence from Arts Council of Wales

## Eich barn chi

**1. Beth yw’ch barn chi am dair blaenoriaeth strategol y Pwyllgor: Newid Hinsawdd; Cymunedau Cynaliadwy; a Diogelu a Gwella'r Amgylchedd Naturiol?**

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn croesawu tair blaenoriaeth strategol y Pwyllgor ynghylch Newid Hinsawdd, Cymunedau Cynaliadwy ac Amddiffyn a Gwella'r Amgylchedd Naturiol.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn canolbwyntio ar ein gwaith o fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur am gyfiawnder hinsawdd ac wedi dynodi cyfiawnder hinsawdd yn un o chwe blaenoriaeth gorfforaethol ein hadolygiad buddsoddi o'r cwmnïau a ariannwn yn amlflwyddyn ac yn ein Cynllun Strategol ar gyfer y 10 mlynedd nesaf. Er y gellir mynd i'r afael â rhai agweddau sy'n ymwneud â chyfiawnder hinsawdd dan flaenoriaeth Cymunedau Cynaliadwy (a chyfeirir at ddull pontio cyfiawn yn Sero Net Cymru), byddem yn meddwl y gellid rhoi rhagor o amlygrwydd i gyfiawnder hinsawdd yng ngwaith y Pwyllgor - neu os teimlir bod hyn yn eistedd yng nghylch gwaith y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, sut y gallai gwaith y ddau Bwyllgor ryngblethu.

**2. I ba raddau y mae tair blaenoriaeth strategol y Pwyllgor yn dal yn berthnasol, o ystyried y datblygiadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol a welwyd ers i'r blaenoriaethau gael eu pennu ar ddechrau'r Chweched Senedd?**

Mae tair blaenoriaeth strategol y Pwyllgor yn dal i fod yn berthnasol ac maent yn faterion sy’n fwy brys nag erioed gan ein bod yn gweld rhagor o effeithiau’r newid yn hinsawdd Cymru a’r byd, megis enghreifftiau o’r tymheredd byd-eang yn

cyrraedd uchafbwyntiau na welwyd mohonynt gynt a gwres eithafol sy'n peryglu bywyd ar draws llawer o Ewrop a Gogledd America.

**3. Beth yw’ch barn chi am y blaenoriaethau manwl/rhaglen waith amlinellol ar gyfer Blynyddoedd 3 i 5 o’r Chweched Senedd (a nodir yn ei adroddiad,** Blaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd’**?**

Mae blaenoriaethau manwl y Pwyllgor ar gyfer Blynyddoedd 3-5 i gyd yn feysydd gwaith pwysig a pherthnasol. Ond hoffem nodi'r ychwanegiadau canlynol at y blaenoriaethau manwl.

Rydym yn argymell bod Strategaeth Ddiwylliant newydd Llywodraeth Cymru a ddatblygir ar hyn o bryd hefyd yn cael craffiad y Pwyllgor o ran sut mae'n bodloni blaenoriaethau Newid Hinsawdd, Cymunedau Cynaliadwy a'r Amgylchedd Naturiol a sut mae’n berthnasol i'r strategaethau a'r polisïau presennol y cyfeirir atynt dan y blaenoriaethau manwl. Dylai hyn gynnwys sut y bydd y strategaeth yn cefnogi'r sector diwylliannol i leihau allyriadau carbon, ôl-osod/addasu adeiladau, datblygu/cael mynediad at seilwaith cynaliadwy, datblygu sgiliau gwyrdd, addasu i’r newid yn yr hinsawdd, adfer bioamrywiaeth, cydweithio â sectorau cysylltiedig fel y sector diwydiannau creadigol a digwyddiadau, rhannu adnoddau, mabwysiadu caffael cynaliadwy a ffyrdd cynaliadwy o weithio (er enghraifft, modelau araf o deithio gwaith), gan gynnwys sut y bydd cymorth o'r fath yn cael ei ariannu.

Mae llawer, os nad pob un, o'r blaenoriaethau manwl ar gyfer Blynyddoedd 3-5 yn berthnasol i'r sector diwylliannol ac mae gan y sector diwylliannol ran unigryw a grymus i'w chwarae o ran dychmygu'r dyfodol yr hoffem ei weld a chysylltu pobl ac ysbrydoli newid. Hoffem weld rhagor o gydnabyddiaeth o swyddogaeth a grym posibl y sector diwylliannol mewn perthynas â newid ymddygiad a diddori’r cyhoedd mewn materion hinsawdd ac amgylcheddol, yn ogystal â rhagor o gynhwysiant wrth ddatblygu polisi cyhoeddus.

O ran effaith y newid yn yr hinsawdd ar les diwylliannol Cymru, dylai'r Pwyllgor graffu ar effaith y newid yn yr hinsawdd ar y Gymraeg a diwylliant Cymru. Ar hyn o bryd, nid yw cynaliadwyedd diwylliannol yn amlwg ym mlaenoriaethau’r Pwyllgor o'i gymharu â chynaliadwyedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

O ran deall allyriadau carbon a chefnogi targedau lleihau carbon, hoffem weld y Pwyllgor yn canolbwyntio’n fwy ar gydgysylltu ar draws sectorau ac adrannau Llywodraeth Cymru, er mwyn hwyluso rhannu gwybodaeth, data ac adnoddau mewn ffordd effeithlon. Mae llawer o sectorau'n mynd i'r afael â materion tebyg o

ran monitro a lleihau carbon ac adrodd am eu cynnydd ac mae perygl y bydd dyblygu a gweithio'n ynysig yn digwydd.

Fel y nodwyd yn ein hymateb i gwestiwn 1 uchod, hoffem weld y Pwyllgor yn rhoi rhagor o ffocws ar gyfiawnder hinsawdd a sicrhau pontio cyfiawn i bobl yng Nghymru ac yn fyd-eang.

O dynnu ar ein profiad ni o weithio i gyrraedd targed Sector Cyhoeddus Sero Net 2030, hoffem weld Pwyllgor yn craffu ar rwystrau i gyflawni polisïau a'u canlyniadau sydd, yn ein barn ni, o hyd yn arwyddocaol, yn enwedig o ran sgiliau, adnoddau a chaffael gwyrdd. Croesawid craffu ar sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r sector cyhoeddus i gyflawni targed 2030.

**4. I ba raddau y mae blaenoriaethau manwl/rhaglen waith amlinellol y Pwyllgor yn dal yn berthnasol, o ystyried y datblygiadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol a welwyd ers iddynt gael eu pennu ar ddechrau'r Chweched Senedd?**

Mae blaenoriaethau/rhaglen waith amlinellol y Pwyllgor yn dal yn berthnasol ond byddem yn awgrymu ystyried y pwyntiau ychwanegol yn ein hymateb i gwestiwn 3 uchod.

**5. A oes unrhyw faterion eraill yn ymwneud â blaenoriaethau/rhaglen waith/ffyrdd o weithio'r Pwyllgor yr hoffech roi sylwadau arnynt?**

Dim sylwadau pellach.

**6. Unrhyw beth arall?**

Dim sylw pellach yma.